Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 955 (Cy. 213)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach (Disgrifio Bwyd Cychwyn Iach) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2020

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach (Disgrifio Bwyd Cychwyn Iach) (Cymru) 2006 ("y prif Reoliadau"). Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004.

Mae rheoliad 2 o'r prif Reoliadau yn darparu bod bwyd Cychwyn Iach, mewn perthynas â gweithredu'r cynllun Cychwyn Iach yng Nghymru, fel y'i nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hynny. Mae rheoliad 2(3) o'r Rheoliadau hyn yn ehangu'r diffiniad o fwyd Cychwyn Iach i gynnwys ffrwythau a llysiau a chodlysiau mewn tun.

Mae rheoliad 3 o'r prif Reoliadau yn darparu'r disgrifiad o fitaminau Cychwyn Iach a fydd yn gymwys mewn perthynas â gweithredu'r cynllun Cychwyn Iach yng Nghymru. Mae rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddileu'r cyfyngiad bod rhaid i fitaminau Cychwyn Iach gael eu darparu ar ffurf tabledi neu ddiferion yn unig, gyda'r effaith y caniateir iddynt gael eu cynhyrchu ar unrhyw ffurf.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004 i ddileu'r gofyniad i gyflwyno tystysgrif sy'n cadarnhau beichiogrwydd at ddibenion cael bwyd lles.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 955 (Cy. 213)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach (Disgrifio Bwyd Cychwyn Iach) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *7 Medi 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *8 Medi 2020* |
| *Yn dod i rym* | *1 Hydref 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 13(1) a (6) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1988(**1**) ac adrannau 47(1) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**2**).

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach (Disgrifio Bwyd Cychwyn Iach) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn:

ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach (Disgrifio Bwyd Cychwyn Iach) (Cymru) 2006(**3**);

(**1**) 1988 p. 7. Amnewidiwyd adran 13 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1988 gan adran 185(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p. 43). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 13(1) a (6) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1988 yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**2**) 2006 p. 42. *Gweler* adran 206 am y diffiniad o "regulations".

(**3**) O.S. 2006/3108 (Cy. 287) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/415 (Cy. 58).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ystyr "Rheoliadau 2004" ("*the 2004 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004(**1**).

**Diwygio'r prif Reoliadau**

**2.**—(1) Mae'r prif Reoliadau wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3—

(a) yn lle "Tabledi neu ddiferion fitamin" rhodder "Cynhyrchion";

(b) ar ôl "sy'n cynnwys fitaminau" mewnosoder "ar ffurf ac mewn swm".

(3) Yn yr Atodlen—

(a) yng ngholofn 1 (categori o fwyd) o'r tabl, yn y trydydd cofnod, yn lle "ffres neu wedi'u rhewi" rhodder "ffres, wedi'u rhewi neu mewn tun";

(b) yng ngholofn 2 (goleddfiad) o'r tabl, yn lle'r trydydd cofnod rhodder—

"Ffrwythau a llysiau ffres, wedi'u rhewi neu mewn tun gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ffrwythau neu lysiau rhydd, wedi'u rhagbacio, cyfain, wedi'u tafellu, wedi'u torri, neu wedi'u cymysgu, ffrwythau mewn sudd ffrwythau, neu ffrwythau neu lysiau mewn dŵr, ond nid ffrwythau na llysiau yr ychwanegwyd braster, halen, siwgr, cyflasyn neu unrhyw gynhwysion eraill atynt.";

(c) ar ddiwedd y tabl mewnosoder—

| | |
|---|---|
| "*Codlysiau* | Codlysiau ffres, wedi'u sychu neu mewn tun, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gorbys, ffa, pys a ffacbys ond nid codlysiau yr ychwanegwyd braster, halen, siwgr, cyflasyn neu unrhyw gynhwysion eraill atynt." |

**Diwygio Rheoliadau 2004**

**3.** Yn Atodlen 4 i Reoliadau 2004 (rhestr o dystysgrifau meddygol rhagnodedig)—

(**1**) O.S. 2004/478 (Cy. 48); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) yng ngholofn 1 (disgrifiad o'r dystysgrif feddygol) o'r tabl, hepgorer yr ail gofnod;

(b) yng ngholofn 2 (deddfiad y mae'r dystysgrif yn ofynnol odano neu at ei ddiben) o'r tabl, hepgorer "Section 13 of the Social Security Act 1988 (Schemes for distribution etc of welfare foods)".

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
7 Medi 2020